# PWYLLGOR APELAU

Dydd Llun, 18 Ebrill 2016

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd J.K. Howell (Chair)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, W.G. Hopkins a/ac S.E. Thomas

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr
J Stuart, Principal HR Officer
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Ystafell Pwyllgor 2 - 3 Heol Spilman - 2.00 - 4.05 pm**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr B.A.L. Roberts a J. Williams.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant.

## 3. COFNODION

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor oedd wedi ei gynnal ar 14eg Mawrth 2016 gan eu bod yn gywir.**

## 4. ADRODDIAD NAD YDYNT I'W CYHOEDDI

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL yn unol ag Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 na fyddai'r cyhoedd yn cael aros yn y cyfarfod tra oedd yr eitem ganlynol yn cael ei hystyried, gan fod yr adroddiad yn datgelu gwybodaeth eithriedig fel y diffiniwyd hynny ym Mharagraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf (fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) 2007), sef gwybodaeth a fyddai'n debygol o ddadlennu enw unigolyn.**

## 5. YSTYRIED APEL YN ERBYN DISWYDDO - ADRAN YR AMGYLCHEDD

**Ar ôl cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 4 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddid yn datgelu gwybodaeth eithriedig a fyddai'n debygol o ddadlennu pwy oedd yr unigolyn dan sylw.**

**Yr oedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud ag enw'r apelydd a manylion personol eraill, sef data personol yn unol â'r diffiniad yn Adran 1 o Ddeddf Diogelu Data 1998. Nid oedd y mater a fyddai'n cael ei ystyried gan y Pwyllgor yn fater budd cyhoeddus. Byddai**

**datgelu'r wybodaeth oedd yn yr adroddiad yn annheg ac yn groes i hawl yr apelydd i gael preifatrwydd. Felly ar ôl cloriannu'r mater, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cynnwys yr adroddiad yn gyfrinachol yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth.**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r apelydd, i'w gynrychiolydd undeb llafur, yn ogystal ag i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd, y Swyddog Ymchwilio penodedig, a'r cynrychiolydd Adnoddau Dynol, ac amlinellodd y protocol y byddid yn ei ddilyn wrth wrando ar yr apêl (dosbarthwyd copïau o'r protocol yn y cyfarfod).

Yna bu'r Pwyllgor yn gwrando ar dystiolaeth gan y Swyddog Ymchwilio, gan yr apelydd a chan ei gynrychiolydd.

Cafodd y ddwy ochr gyfle i groesholi ynghylch y dystiolaeth a roddwyd ac i grynhoi. Ar ôl gwneud hynny, gadawodd y ddwy ochr y cyfarfod tra oedd y Pwyllgor yn ystyried y dystiolaeth a'r sylwadau a gyflwynwyd.

Ar ôl i'r Pwyllgor ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, ynghyd â'r sylwadau a wnaed gan yr apelydd, ac ar ei ran, a chan y Swyddog Ymchwilio

**PENDERFYNWYD**

**5.1 bod yr apêl yn cael ei gwrthod a bod y penderfyniad i ddiswyddo'r apelydd, a oedd wedi'i ategu mewn llythyr dyddiedig 16[eg] Mawrth 2016 yn dilyn Gwrandawiad Disgyblu Ffurfiol ar 7[fed] Mawrth 2016, yn cael ei gadarnhau;**

5.2 bod yr apelydd yn cael ei hysbysu'n ysgrifenedig o'r rhesymau llawn dros wrthod yr apêl.

Yna cafodd y naill ochr a'r llall eu galw yn ôl i'r cyfarfod i gael gwybod beth oedd penderfyniad y Pwyllgor.

______________________________ ______________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**